



## Delweddau o'r gogledd

Mae'r ffotograffydd Dewi Edwards yn saer gyda'r British Antarctic Survey.

Dyma fo yn Svalbard (ynys mwyaf gogleddol Norwy). Tynnwyd y lluniau ym mis Awst eleni. Gwylan ifori sydd ar y dde. Am fwy o luniau Dewi edrychwch yn yr Oriol.

## Cofio'r Clwy' 1952

Roedd DO Jones, Padog, yn gofnodwr o fri. Dyma rai o'i sylwadau ar epidemig y clwy traed a'r genau ym mis Mai 1952:

Saethwyd a llosgwyd yn Bryn Ddraenen 19 o wartheg a lloeau a 178 o ddefaid ac wyn. Saethwyd a llosgwyd yn Bryn Tirion 22 o wartheg a lloeau a 370 o ddefaid ac wyn. Yr oedd nifer o ddefaid ac wyn dieithr yn perthyn i'r ffermydd cyfagos ymhlith y defaid ac ŵyn a ddifeiwyd.

Golygfa drist a digalon iawn oedd i'w weld yn Bryn Ddraenen ar ddydd Sul 4 ydd o Fai, tua deg o gloch y bore daeth lori Knowles Betws y Coed ac 8 tunnell o lô i ganol car tŷ ac yna llwyth o goed tan a gwellt. Tua hanner dydd daeth wyth o weithwyr Williams Bros Llanrwst i dorri twll yn ganol cae car tŷ yn ymyl ffynnon Tŷ'n Pwll. Yr oedd yn ddiwrnod poeth a chlos. Yr oedd pedwar o filfeddygon ar y fferm a phlismon yn gwarchod groesffordd Tŷ Mawr ac yr oedd hysbysiadau *Foot and Mouth Disease No Admittance* ar y groesffordd ac ar y cloddiau.

Tua chwech o gloch dechreuwyd dod ar gwartheg godro, 8 ohonynt at ben y twll ac yna ei saethu hefo humane Killer ar ôl rhoi dose o chlorophone iddynt. Yr oedd y gwartheg i'w gweld dipyn yn gloff, ond roeddent yn cerdded yn iawn. Yn dilyn daeth y gwartheg hesbion o Tŷ Pwll ar lloeau bach, y rhai ohonynt yn prancio ac yn holliach, yn dilyn cafwyd y defaid ar wyn i'r cae. Yr oedd yr ŵyn bach yn rhedeg ac yn prancio ac yn llawn afiaith. Daeth lori a llwyth o hyrdls at wneud corlan ddefaid i ymyl y twll a gwneud corlan yno. Helwyd y defaid ar ŵyn bach diniwed i mewn i'r gorlan ac yna ei saethu fesul un tu nol iw pennau, ac yna ei llecho yn waed i gyd i'r twll. Tua hanner awr wedi saith daeth yn storm o law bras a thrwm, nes yr oedd pawb yn wlyb iawn. Tua naw o'r gloch dechreuwyd cynnau y tân, daethpwyd a galwyni o T.V.O i ddechrau y tân ac fe

fuodd y goelcerth yn llosgi bob dydd a nos, hyd ddydd Gwener canlynol. Yn y cyfamser yr oedd amryw o weithwyr wrthi yn disinfectio y beudai, y ffordd a chae car tŷ, tynnwyd drysau i ffwrdd a chliriwyd y tail o'r beudai a llosgwyd gwellt a hen wair o gwmpas y ffarm.

Yr oedd yr un goruchwylion ynghyd ar gwaith a gofal rhag i'r haint ymledu yn cymryd lle yn fferm Bryn Tirion, Ysbyty Ifan. Yr oedd milfeddygon yn mynd oddi amgylch y ffermydd cyfagos i edrych y gwartheg ar defaid o fewn y cylch o ddwy filltir. Yr oedd gwaharddiadau rhag symud anifeiliaid am dair wythnos o fewn cylch o bymtheg milltir. Yr oedd yn ddydd Sul Mehefin y 1af cyn y daeth ffermwyr cyfagos canlynol yn rhydd o'r gwaharddiad. Tŷ Mawr, Tŷ Nant, Tŷ Uchaf, Ochr Cefn Bach a Ochr Cefn canol. Yr oedd yn fis Fehefin ar y defaid ar ŵyn yn mynd i'r mynydd ac oherwydd hynny yn achosi colled i'r caeau gwair. Defnyddiwyd galwyni o disinfectant o bob math gan ffermwyr y cylch. Yn cynnwys rhoi matiau o wellt a disinfectant arno ar y ffyrdd. Yr oedd yn adeg bryderus i ffermwyr y fro.... Y mae y llywodraeth yn talu tal llawn am yr anifeiliaid holl iach ac yn talu un rhan o dair am yr anifeiliaid ar clwyf arnynt. Ond mae y cwbl yn dibynnu ar faint fydd y prisiwr wedi ei prisio... Beth a ddwedai Robert Jones taid Tŷ'n Pwll tybed? pe gwelai ddiadell defaid a oedd mor ofalus ohoni yn mynd yn aberth ir fflamau ar gae car tŷ Tŷ'n Pwll. Heddiw 13 o Orffennaf 1952 nid oes fawr o oelion iw weld ar dwll yr aberth. Y mae y gwair wedi tyfu drosto ond erys y cof am y braw, y pryder ac am yr aberthu yr anifeiliaid diniwed.

\*\*\*

Ewch i'r Tywyddiadur i weld cofnodion trist y clwy' ym mis Mawrth 2001. Gwyntoedd gafodd y bai yn yr achos hwn gan rai papurau newydd ar y pryd, yn chwythu o'r de gan ddod â'r clwy' yma gyda llwch o'r Sahara. Darllenwch hefyd am yr haint yn 1968 a 1987.

## Coelcerthi G'langaea a Guto Ffowc

Wotton 5 Tachwedd 1685: *it being an extraordinary wett morning first gunpowder conspiracy anniversary under a prince of the Roman religion [Iago'r II]. Bonfires forbidden on this day; what does that portend*

John Evelyn Faber Book of Diaries, Faber

Ond roedd coelcerthi i'w gweld o hyd ar noson G'lanmai yng nghyfnod William Bulkeley:

31 Hydref 1736, Llanfechell, Mon: *The Wind S. calm, dark, & overcast in the Morning, but. dry, about 12. it begun to rain, & rained more or less, (sometimes very hard) till 7 at Night. very few Coel-coeths [sic] to be seen this Night.*

Dyddiadur William Bulkeley, Brynndu, Llanfechell, Mon (gyda chaniatad Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor)

Difyr gweld bod yr hen arfer o gynneu coelcerthi ar noswyl G'lan Gaea yn dal ei dir yma yn Llanfechell yn 1736, neu bod yr hen arfer wedi dod yn ei ôl. Tua 1606 fe basiwyd Deddf gan y Llywodraeth Protestanaidd ffundamentalaidd oedd mewn grym ar y pryd i wahardd y coelcerthi G'lan Gaea traddodiadol am eu bod wedi cael yr esgus perffaith i wneud hynny. Roedd adlais gref iawn o baganiaeth yn gysylltiedig â G'lan Gaea, a phan ddaliwyd yr hen Guto Ffowch, yn ceisio rhoi bom dan dinnau Seneddwr Llundain ar Dachwedd y 5ed fe symudwyd y coelcerthi i'r dyddiad hwnnw, ac mae'n dal felly hyd heddiw. Cofier mai ar y 5ed Tachwedd 1605 y daliwyd Guto a chafodd ei boenydio'n ddiugaredd cyn ei ddienyddio drwy ei grogi a'i dynnu'n ddarnau yn Ionawr 1606 – ddim ei losgi ar Dachwedd y 5ed fel mae rhai yn meddwl. Yn glyfar iawn o ran Llywodraeth y cyfnod roedd symud y coelcerthi i Dachwedd y 5ed yn cyflawni dau bwrpas: 1) Roedd yn slap ar wyneb arferion paganaidd G'lan Gaea gyda'r un llaw, 2) ac yn slap gyda'r llaw arall ar wyneb y Pabyddion drwy ddathlu 'achubiaeth' y deyrnas brotestanaidd oherwydd methiant y 'Cynllwyn Powdwr Gwn' yr oedd Guto Ffowc a Phabyddion eraill yn rhan ohonno. Dan yr amgylchiadau, mi newidiodd llawer o bobl eu coelcerthi i Dachwedd y 5ed – peth peryg iawn oedd peidio, ar boen cael eich cyhuddo o fod un ai yn bagan neu yn Babydd – mi fyddai gwrrachod yn ogystal a Phabyddion yn cael eu llosgi yn y dyddiau duon a pheryglus hynny.

Twm Elias

"Difyr iawn" meddai Sue Walton, "yn ôl Wikipedia, mae'r Gwyddelod dal yn cael coelcerthi ar 31ain Hydref". Ac roedd coelcerthi i'w gweld ar noson G'lanmai hefyd hanner canrif ar ôl cofnod William Bulkeley:


Llangollen 31 Hydref 1785: *At seven we walked before our door and in the shrubbery to see the Bonfires, which in Commemoration of a Victory gained over the English are annually lighted on this night upon every Eminence in North Wales. From the Lawn on which We Stood saw nineteen Fires around us. One on the Eglwyseg, Pen-y-coed, Pengwern, Llantysilio, an Hill of the Empty Well, one large fire in the centre of Dinas Bran, three on the Berwyn, an immense one on the summit of Moel Mawr.*

A Year with the Ladies of Llangollen, Gol. Elizabeth Mavor

Felly, yn ôl y cofnod hwn roedd yna reswm arall i gynnal coelcerthi ar noson G'langaea – ond beth oedd y fuddugoliaeth dros y Saeson oedd gan Foneddige Llangollen dan sylw? Dyma ymateb un sydd wedi astudio hanes a sy'n dod o'r ardal,

"Sir-y-Fflint, Wrecsam? Ochr Owain G, ar ôl ennil erbyn Sheriff Dinbych? neu Dafydd brawd Llewellyn gwythrhyfel a llosgi Castell Caergwrle a Penarlag? neu ar ôl ennil brwydr Waunrywyddfid (Gwernaffield/Y Waun) tu allan Yr Wyddgrug? Heb dyddiad mae'n anodd gwybod."

## O Fôn mae Eryri ar ei orau



Addasiad o ddyluniad o olygfa 'Yr Wyddfa o Frynsiencyn' gan H Clayton Jones o hen lyfr 'Around Snowdon' gan HL Wilson a gyhoeddwyd gan RE Jones, Conwy, cyhoeddwyd gwreiddiol y North Wales Weekly News.

Llun: Gareth Pritchard

Ysgwn i beth yw enw'r tyddyn yn y blaendir. Ydi'o'n dal i sefyll? Gol.

## Mursen mwyaf gogleddol yn y byd..bron!

Derbyniodd y golygydd y neges bersonol hwn gan Allan Brandon (cofnodydd gweision neidr gogledd Cymru) dyddiedig 10 Awst 2012:



*I met Tony, your neighbour, at Amlwch the other day. I had just discovered there one of the most northerly populations of Small Red Damsels in the World so was feeling pretty good.*

Tynnwyd y llun uchod o'r fursen fach goch gan Rhys Jones. Meddai Rhys:

Llun pâr o fursennod bach coch (*Ceriagrion tenellum*) ger Llyn Tecwyn Isaf 12 Gorffennaf 2010. Gellir adnabod y fursen fach goch o'r coesau coch (tywyll yn y fursen fawr goch), a'r paneli coch ar adain y gwryw (du yn fursen fawr goch).

## Nyth Aderyn-to Llanfaglan

### diweddariad i'r stori ym Mwletin 54

Mae Nigel Brown a Trefor Dines wedi edrych ar y nyth. Mi oedd Trefor yn gobeithio bysai rhywfaint o gen neu ffwng wedi sychu yno ond nid oedd. Mae'r ddau yn cytuno ar y rhestr yma

*Soft Brome* [*Bromus hordeaceus*, pawrwellt cyffredin]  
*Crested Dog's tail* [rhonwellt y ci]  
*Fescue (Red/sheep)* [peiswellt coch/y defaid]  
*Yorkshire fog* [maswellt penwyn]  
a hen rhywogaeth o rygwelwll [*Rye grass*].


Meddai Trefor, "fysai'r rhain yn rhan o hen borfeydd ac yn gyffredin iawn yn yr amser cafodd y nyth ei godi. Mae yna lawer o hadau yn waelod y box a sawl math o wreiddiau. Fydd y gerddi cenedlaethol yn medru dweud llawer drwy'r rhestr DNA a drwy dyfu'r hadau. Update nesa ar ôl i mi fynd a fo i lawr i'r gerddi yng Nghaerfyrddin".

Adroddiad Kelvin Jones





## Ymrafael rhwng morlo a chath fôr



Llun a sylw: Alun Williams

Tynnais y llun yma o Drwyn Eilian, Sir Fôn. Llun o beth tybed? SH479937 Llun difyr iawn. Mae Alun yn gywir, cath fôr wedi ei dal gan forlo. Efallai mai *Raja brachyura*, y gath for felen, yw'r 'sgodyn

Sion Roberts

## Gwalchwyfyn y taglys



*Stunning creature about 8-10cm long, if not longer. Spotted by me outside the Hotel du Tourmalet, Bareges [Midi Pyrenées, Ffrainc], last Monday evening. There are lots of them around at the moment and in broad daylight (I haven't researched them yet to find out about them) but this is the biggest I have seen. The others have only been about 3-4cm long. Very very very hard to photograph!*

Os ydych chi eisiau gweld hanesion y pry trawiadol hwn yn nes at adref ewch i <http://llennatur.com/cy/node/18>, cliciwch Tywyddiadur a rhowch taglys yn y blwch uchaf yn y parth coch.

## Mwy am y Pitch Pein



Dyma lun Ronnie Jeffers o'r pentra 'ma [Bethel, Bodorgan], yn atic Capel MC Bethel. Mae Ronnie'n arbenigwr ar doi - wedi bod yn gweithio ar stad leol am hanner cant o flynyddoedd. Sbiwch ar faint coed y to! *Pitch pine*, siwr o fod. Sut yn y byd oeddau nhw'n cael y coed i'r safle i ddechra (o ystyried mai tua 3-4 llath o hyd oedd trol) a sut oeddau nhw'n codi'r fath goed ar dop y walia sydd tua ugain troedfedd o uchder.

Mae'r coed sydd yn rhedeg led y capel yn 9"x 15" a tua 40 troedfedd o hyd.

*Pinus palustris* ydi *pitch pine* i ni, ond *Pinus rigida* ydi *pitch pine* yn Wikipedia, hefo *Pinus palustris* yn cael ei alw yn *Longleaf pine*.

Tybad faint sydd gan y Methodistiaid Calfinaidd i neud hefo mewnfario *pitch pine* i adeiladu eu capeli yn ystod y ddeunawfed ganrif? Yn '*Ships and Seamen of Anglesey 1558 - 1918*' gan Aled Eams, ceir hanes y teulu Davies, Porthaethwy, yn mynd a pobl a llechi i Ogledd America a dwad a llwythi o goed yn ôl. Buasa'n ddiddorol cael gwybod os mai *pitch pine* oedd y llwythi coed hynny. Wil Williams

## Cwlwm ar goeden fedwen



Cwlwm ar goeden fedwenyn nyffryn Nedd Fechan, SN904098, 1/09/2012. Roedd tua dwy droedfedd ar draws. Ai pryf yn dodwy ym mlagur y goeden sydd yn gyfrifol am i'r goeden dyfu'n afreolaidd i greu y cwlwm?

Llun a hanes: Ieuan Roberts

## Gwlithod yn paru



"Hwn yn yr ardd bore heddiw (14 Medi 2012)" meddai Ifor Williams, Llanfaglan.

Daeth ymateb yn syth gan Sion Roberts: "Fe welais i 'union' yr un peth heddiw 14 Medi 2012! Cydddigwyddiad?"

Rhywbeth i gofnodi eto efallai gan y ffenolegwyr yn ein plith?

## Pôs y mis

Cofio hwn? Pa flodyn sydd ar y darn? A pham?

Atebion i'r cwestiwn cyntaf (o leiaf) trwy "Cysylltwch" ar y wefan cyn 15 Hydref (gyda'ch cyfeiriad) am docyn llyfr £10



## Pigion o'r papura bro

### Prynu grug - dan fygythiad

Haf 1912: Roedd rhai o fechgyn Cwm y Glo a Llanrug yn ennill ceiniog neu ddwy oddi ar yr ymwelwyr hefyd, ond ym mis Awst y flwyddyn honno aeth eu hawch am arian dros ben llestri. Mae'n ymddangos eu bod yn casglu sypiau o rug yn ei flodau ac yn eu taflu i gerbydau'r ymwelwyr tra'n teithio heibio ar eu ffordd i Lanberis. Fel arfer roedd yr ymwelwyr yn talu arian man am y blodau, ond nid pob un. Daeth y rheini dan lach yr hogia' ifanc, a dechreuwyd taflu cerrig a llaid at yr ymwelwyr nad oedd yn fodlon talu am y grug. Ymddangosodd rhieni y bechgyn yn y llys a'u siarsio i reoli eu plant!

Colofn Chwilota, Eco'r Wyddfa Medi 2012

## Cae Llyn, Y Ro Wen - ddoe ac echdoe.

Ar gefn y llun ar y chwith (gan Benjamin Fisher) y mae'r



enw Pen Rhiw Troed. Diflannodd y llyn ers cyn cof, ond 'Cae Llyn' yw'r enw ar y cae o hyd. Fe sylwch bod y ffordd wedi 'dwyn' rhan o'r cae. Ai dyna pam y sychwyd y llyn?

Llun ar y dde: Gareth Pritchard

Oes gwybodaeth pellach, chi bobl dyffryn Conwy am y llyn - pam ffurfiwyd y llyn, a pham y'i sychwyd ... a phryd?

**Mae Llên Natur ar Facebook hefyd**



## Atgofion o haf 2012 Les Larsen

Dyma ychydig o ansoddeiriau parchus am yr haf eleni: glawog, cymylog, gwyntog, diflas, undonog, gyda bwrw, haul yn aml ac ambell i daran. Yr oedd yr haf yn wlypach na hyd yn oed haf 2007 pan gawsom 476 mm o law [tua 19 modfedd]. Eleni daeth 511mm [20 modfedd] i lawr ar y pentref [Penisarwaun]; 243.5mm ym Mehefin, 132.5mm yng Ngorffennaf a 135mm yn Awst, a hynny ar 70 ddyddiau allan o 92. Ar ben hyn oll ni chafwyd llawer o ddyddiau poeth. Yr unig ddiwrnod poeth oedd yr 11eg o Awst pan aeth y tymheredd i fyny i 24.6C. Gyda llaw yn ystod haf 2011, 49 o ddyddiau gyda glaw a gawsom. Gwnaed yr haf yn fwy llwm oherwydd absenoldeb nifer o greaduriaid: ee. 1. Y fuwch goch gota; 2. sboncyn [sioncyn] y gwair o unrhyw fath; 3. gloynod byw onibai am y gwynion; 4. pry llwyd a'i bigiad distaw. Ar yr ochr orau o'r haf oedd ymweliad y barcut coch wrth yr hen ysgol a gardd yn Nhanycoed, LLanrug yn lloches i ddraenog. A braf oedd gweld llyffant du y dafedennog yn yr ardd acw. Hefyd bu adar y to yn llwyddiannus yn magu teulu yn nho y modurdy. Roedd gwennol y bondo hefyd yn llwyddiannus yn magu teulu ym mondo ty gerllaw.

## Yr "Ewr"



Wrth sgwrsio efo'm cyfaill Tudur Pritchard yn ddiweddar (31 Awst 2012) digwyddodd Tudur son am chwarae yn ystod ei blentynod ym Mhenmynydd, Môn efo'r "ewr". Dywedodd hyn yn hollol naturiol fel petai o wedi dod yn syth o dafod lleferydd yr ardal. Wrth drafod ymhellach daeth yn amlwg mai "efwr" oedd ganddo. Pwy sy'n dweud bod yr hen enwau Cymraeg ar blanhigion cyffredin wedi hen farw o'r tir? DB

Meddai Tudur "Magwyd fi ar fferm ynghanol Ynys Môn, ac fel plant yr oeddyd yn chwarae yn y coed a amgylchynnai'r ffermy. Yr oedd un llwyn o goed fel petaent wedi eu plannu yn ddiweddar (dyweder eu bod yn 25 mlwydd oed yr amser hynny), a hynny yr ochr orllewinol i'r prif goedlan. Golyga hyn, wrth gwrs ei fod yn gysgod, ac yn nanedd y gwynt de orllewinol sydd yn ysgubo ar draws yr ynys. O'tanynt yr oedd trwch o ewr yn tyfu, a hwnnw yn ardderchog i ni fel plant chware ynddo a chuddio, ei dorri i wneud pastwn (a barai ychydig funudau gan ei fod mor wan). Yr oeddem hefyd yn ei dynnu o'r gwraidd, ac yn gweld caratsen o'tanno, gan ddysgu ei fod yn perthyn i'r carots cyffredin".

Tudur Pritchard

## Profiad unwaith mewn deg oes

Cliciwch ar hwn os am gael profiad "unwaith mewn 10 oes": <http://uk.news.yahoo.com/setting-the-world-on-fire-stunning-pictures-of-rare-devil-tornado-emerge.html>

## Llifogydd Talybont

"A small woollen factory ...owned by one Wm Rees. Made flannel. A great flood in the Leri in 1870 swept away the factory. No lives were lost. The sudden flood was caused by a cloud-burst higher in the valley". Yn anffodus y flwyddyn yn unig a gofnodir.

Dai Thorne



A dyma dirlithriad diweddar yn yr un ardal uwchben ffermy Nant y Nôd, yng Nghwm Ceulan, ar y ffordd i gronfa ddŵr Nant y Moch yn ystod glaw mawr 9 Mehefin eleni. Oherwydd y llifogydd a ddilynodd, daeth pentref Talybont, y pentref islaw, i sylw weddill Prydain.



Dyma (chwith) safle 'chwydfa' Nant y Nôd, Cwm Ceulan (saeth coch) diolch i Google Earth. Yn amlwg tynnwyd y llun hwn o'r lloeren cyn y cenllif.



Oes gennych chi luniau o dirlithriadau? Dyma (de uchod) dirlithriad arall a dynnwyd gan Gwyn Williams ar y Migneint (sh8044), yr uchaf 5 Rhagfyr 2009 a'r isaf ym mis Mai eleni. Sylwch fel y mae'r graith wedi ymledu dros y dair blynedd diwethaf.

## Gwellt gwair - gwellt gwair...mwy (Bwletin 52)

*On a souvent pris les Bretons pour des ignares sous prétexte qu'ils matrisaient mal le français et son raconté, sous la tour Eiffel, comment au service militaire on leur apprenait à marcher au pas en leur faisant scander non pas une-deux, une-deux, mais :*

*Plouz, foenn Gwellt, gwair,  
Mellou galochou... Traed mawr.*

Du Chêne au Rosau Daniel Giraudon

Yn aml yn y gorffennol cymerwyd y Llydawyr fel pobl diglem am na lwyddon nhw yn aml i feistrolï'r Ffrangeg a'u mân siarad Llydaweg o dan Tŵr Eiffel ... Cawson nhw eu pechu tra'n gwasanaethu yn y fyddin trwy eu dysgu i orymdeithio gyda'r geiriau gwellt-gwair, gwellt-gwair fel petaen nhw'n rhy dwp i ddeall chwith a de.